

Tyfu Lafant

Taflen Cyngor Technegol

Cyflwyniad

Mae lafant yn gallu bod yn gnwd newydd ac anarferol y gellir ei integreiddio i ystod o ddaliadau tyfu sydd eisoes yn bodoli, ac mae'n gallu integreiddio'n dda gyda chynnyrch eraill megis mêl, hyd yn oed, os oes gennych gychod gwenyn ar y safle. Gellir gwerthu lafant sych fel amrywiaeth o gynnyrch fel blodau sych, wedi'i glymu mewn tuswau o flodau ar ei ben ei hun neu wedi'i gymysgu â blodau sych eraill megis ysgall a gypsoffelia. Ar gyfer safleoedd casglu'ch blodau eich hun, gall lafant fod yn ychwanegiad apelgar at safle'r fferm. Mae hyd yn oed yn bosib hurio cafnau mawr o lafant fel cefnlen i luniau priodas! O safbwynt tyfu, gellir tyfu lafant yn rhwydd heb lawer o broblemau o ran plâu a chlefydau yn y tymor hir. Ar ôl ei blannu, gall lafant bara am 6 i 10 mlynedd gan ddibynnu ar y pridd, y math o lafant ac amodau tywydd cyn gorfod ei ailblannu.

Pridd a Hinsawdd

Ardaloedd o law isel mewn pridd calchaid, caregog sydd wedi'i ddraenio'n dda, mewn safleoedd sych a heulog sy'n gweddu orau i lafant. Lôm ysgafn dros sialc sydd fwyaf addas, er y gellir defnyddio lôm tywodlyd os yw wedi'i galchu'n addas. Mae pridd sy'n draenio'n rhydd yn hanfodol; mae hyn yn golygu bod priddoedd trwm yn anaddas oherwydd y risg uwch o glefydau. Mae angen ardaloedd di-rew a chysgod rhag gwyntoedd cryf hefyd.

Bydd lafant yn gweddu'n dda i aeafau mwyn Cymru, ond gall lefel uchel o law a gwyntoedd cryf fod yn her i'r cnwd. Y peth gorau yw plannu lafant mewn caeau cysgodol, ond os ydych chi am dyfu ar safle sy'n agored i'r elfennau, dylech ystyried cysgodion rhag y gwynt i warchod y cnwd.

Gall lefelau glaw fod yn uwch yng Nghymru na'r ardaloedd lle tyfir lafant fel arfer, ond mae'r ffenest gynaeafu rhwng mis Gorffennaf a mis Awst, felly mae'n annhebygol o fod yn her. Serch hynny, bydd angen draeniad da ar y cae er mwyn osgoi priddoedd sy'n rhy wlyb. pH o 7 sydd orau, ond mae priddoedd â pH 5.8 - 8.3 wedi cael eu defnyddio i dyfu'r cnwd. Dylai calchu confensiynol, gyda thriniaethau arferol cyn creu gwelyau uwch, fod yn ddigon. Bydd angen monitro'r pH bob dwy flynedd, ac os ydych yn gweld dirywiad cyflym ynddo, byddai'n fuddiol gwasgaru calch ymlaen llaw, gan na fydd yn hawdd trin y pridd ar ôl i'r cnwd ymsefydlu.

Triniaeth

Gellir cynyddu uchder y gwelyau ar ôl eu trin i 30 - 40cm gydag arwyneb gwastad. Ar ôl eu ffurfio, dylai stripiâu Mypex gael eu gosod dros y gwelyau i reoli chwyn, gyda phibell ddyfrhau o dan y Mypex. Ar gyfer darnau mawr o dir, gellir ffurfio'r gwelyau gyda pheiriant cribo wedi'i dynnu gan dractor gyda bwrdd lefelu, ac yna rhoi gorchudd Mypex gyda pheiriant gosod polythen os oes un ar gael. Wrth baratoi gwelyau, gadewch dalar go lew (tua 5m) os ydych yn defnyddio peiriannau.

Y peth gorau yw plannu planhigion â llaw mewn tyllau â siâp croes a dorrir yn y Mypex – cadwch hyn mor fach â phosib, i leihau'r ffenest i chwyn ymsefydlu. Gellir defnyddio clipiau Mypex hefyd i sefydlogi'r gorchudd, ond os caiff ei balu'n dda, ni fydd angen hynny.

Mae'n annhebyg y bydd angen unrhyw ddyfrhau sylweddol ar y cnwd, ond mae'n well sicrhau bod hyn gennych rhag ofn y ceir tywydd poeth a sych, er mwyn cynnal tyfiant. Gellir defnyddio dŵr a dynnir o ffynnon, neu danc storio, i ddyfrhau, a gallwch hefyd ystyried defnyddio dyfais fwydo fewnol megis Mazai neu Dosatron. Gellir bwydo hefyd drwy wasgaru gwrtaith, sy'n cael ei gynnwys yn y gwelyau wrth i chi eu paratoi. Dim ond ar ôl ymsefydlu y bydd planhigion yn cymryd porthiant sylweddol, ac argymhellir cyfraddau nitrogen o 80 – 100 kg/ha a ffosfforws o 33 kg/ha y pryd hynny. Bydd bwydo gormod yn hybu tyfiant llystyfol ac yn lleihau maint y cnwd.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



Lafant sydd wedi'i blannu mewn gwelyau uwch trwy Mypex.

Gofod rhwng y planhigion	Gellir gosod bylchau o 30-40cm rhwng Corblanhigion/Planhigion Canolig (e.e Lafant Seisnig <i>Lavandula angustifolia</i> e.e. 'Hidcote blue' neu 'Munstead'). Ar gyfer cyltiffarau mwy/talach fel croesiadau <i>Lavandula</i> x cyfryngau fel Grosso, dylid cynyddu hyn i 60cm rhwng y planhigion.
Dyfrhau	Ar ôl iddynt ymsefydlu, bydd angen dyfrhau mewn tywydd poeth/sych iawn yn unig, gan eu bod yn gallu gwrthsefyll sychder ar y cyfan. Bydd dyfrhau ar ôl cynaeafu'n helpu'r planhigion i aildyfu.
Tocio	Ar ôl i fathau gwydn o lafant ymsefydlu, gellir eu tocio yn ôl i'r pren hŷn ym mis Awst fel bod digon o amser ganddynt i aildyfu cyn dechrau'r tywydd gwlyb oerach. Yn gyffredinol, mae hyn yn cynnwys tynnu pennau'r blodau a'r coesynnau sydd wedi darfod a thynhau siâp y llwyni yn ôl i dyfiant y tymor presennol.

Dewis y Mathau o Lafant

Y prif fathau masnachol yw Grosso, Provence, Gros Blue a Dutch Mill. Mae croesiadau *L. x cyfryngau* (a elwir fel arfer yn 'Lafandin') yn cael eu hargymell ar gyfer tynnu olew a blodau ffres a sych – maent yn blodeuo'n helaeth, gan roi pennau mawr â mwy o gynnwys olew na mathau *L. Angustifolia*. Mae'r mathau hyn yn wydn iawn, ac maent yn blodeuo rhwng mis Gorffennaf a diwedd mis Awst. Gall planhigion hefyd gyrraedd 60cm, sy'n creu golygfa drawiadol i ymwelwyr. Serch hynny, caiff corblanhigion *L. Angustifolia* fel Hidcote Blue, Maillette a Munstead eu hargymell ar gyfer blodau sych, oherwydd eu bod yn gallu cadw llawer o'u blodau ar ôl cael eu sychu. Mae mathau *L. Angustifolia* hefyd yn cynhyrchu olew o ansawdd uwch ar gyfer persawr a defnydd cosmetig. Mae planhigion plwg sy'n cael eu tyfu o hadau yn debygol o fod ar gael gan luosogwyr planhigion addurnol - ceisiwch osgoi torri deunydd i osgoi risgiau bioddiogelwch.

Cynaeafu lafant

Gellir cynaeafu lafant rhwng mis Gorffennaf a mis Awst. Os ydych yn eu torri i ddistyllu olew, rhaid i'r holl flodau fod ar agor, gan amlaf wythnos yn hwyrach nag y byddai blodau'n cael eu torri ar gyfer y farchnad ffres neu sych. Mae'n well torri blodau pan fydd y planhigion yn sych, a bydd haul cryf yn gwella'r cynnwys olew sydd ynddynt. Os ydych chi yn bwriadu tyfu i gynhyrchu olew, mae'n rhaid i chi ystyried argaeledd distyllwr yn ofalus, neu ymchwilio i brynu'ch cyfarpar distyllu eich hun a buddsoddi ynddo – mae'r ffordd mae'r cnwd yn cael ei ddistyllu yn debygol o gael effaith sylweddol ar sut rydych chi'n cynaeafu ac yn trin eich cnwd. Gellir cynhyrchu 35 - 45 kg olew/ha mewn blwyddyn dda, ond mae 11 kg olew/ha yn debygol o fod yn fwy nodweddiadol. Dylid torri lafant sy'n cael ei dyfu ar gyfer blodau sych ychydig cyn i'r blodau gyrraedd eu llawn dwf.

Dylai'r rhain gael eu gosod ar hambyrddau agored a'u sychu y tu allan yn yr haul (wedi'u gorchuddio yn y nos) neu mewn ystafell sych sydd wedi'i hawyru'n dda.

Ar gyfer cynaeafu, bydd peiriannau sydd naill ai'n pontio'r gwely ac yn torri o'i flaen eu hun, neu rai ongllog sy'n torri'r rhes wrth ymyl y tractor, yn ddefnyddiol. Defnyddir amrywiaeth o beiriannau pwrpasol, yn debyg i'r rheini sy'n cael eu defnyddio i gynaeafu te. Dylid defnyddio lled olwynion tractor (e.e. gwely 1m o led) i gynllunio bylchau yn y gwelyau i helpu'r cynhaeaf. Serch hynny, yn realistig, gellid torri planfeydd llai hyd at 2 erw â llaw.

Rheoli Chwyn, Plâu a Chlefydau

Efallai y bydd rhywfaint o wywo i'w weld 3-4 blynedd ar ôl plannu. Ar y cyfan, nid yw hyn yn benodol, ac mae'n digwydd oherwydd amrywiaeth o resymau. Gwelir y problemau gwaethaf mewn twneli, yn enwedig os cânt eu cadw'n wlyb. Mae pwysau plâu yn isel ar y cyfan, a gellir rheoli'r rhan fwyaf o problemau'n ymwneud â chlefydau'n ffermwrol - gall fod yn gnwd delfrydol i'w dyfu'n organig, hyd yn oed. Mae clefydau'n

annhebygol o fod yn broblem sylweddol mewn lafant sy'n cael ei dyfu mewn caeau. Gall pydredd gwreiddiau fel *Armillaria*, *Fusarium*, *Pythium* a *Phytophthora* fod yn risg, yn enwedig mewn caeau gwlyb. Dylid hefyd cadw llygad am glwyf smotiau *Septoria* a chlefyd gwywo *Fertiliciliwm*. Gall *Phoma* ddod yn amlwg o fis Mai ymlaen wrth i egin ifanc fynd yn glorotig a gwywo. Dylid codi a dinistrio planhigion heintiedig yn gyflym, ochr yn ochr â phlanhigion cyfagos i reoli'r lledaeniad.

Mae pryfed hefyd yn annhebygol o fod yn broblem mewn cnydau sefydledig. Gall gwiddon dau smotyng, nematodau dail a blagur a sboncynnod y dail fod yn broblem mewn cnydau sydd newydd gael eu plannu, ond ni ddylent fod yn broblem ar ôl iddynt ymsefydlu.

Y brif her o ran tyfu fydd rheoli chwyn lluosflwydd fel marchwellt, ysgall y maes a dail tafol. Bydd gorchuddion *Mypex* yn cadw cyfran fawr o'r rhain allan o'r cae ar ôl iddynt gael eu gosod. Os caiff y gwelyau eu paratoi ymhell cyn plannu ac nad yw'r *Mypex* wedi'i dyllu na'i dorri, bydd chwyn yn egin ac yn marw oddi tano, felly mae'n gallu bod yn well gorchuddio'r ardal gyfan os oes modd. Ar ôl plannu, bydd angen chwynnu â hof, ac mae'n well gwneud hyn yn gynnar ac yn aml er mwyn atal chwyn rhag ymsefydlu. Gall dail tafol, danadl poethion, ysgall y maes a marchwellt ymledu'n gyflym o hadau, felly sicrhewch eich bod yn tynnu unrhyw chwyn cyn y gallan nhw fynd i had. Bydd rheoli chwyn mewn llwybrau hefyd yn bwysig. Gellid hau llwybrau gyda chymysgedd o laswellt tebyg i fath berllan, a bydd hyn yn helpu i sychu'r pridd, ond bydd angen torri gwair yn rheolaidd i'w gynnal. Gellir defnyddio sglodion coed a rhisgl fel dewis arall rhatach.

Ymwadiad

Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb yr wybodaeth a'r argymhellion a roddir yn y nodiadau hyn. Dylid defnyddio'r holl gemegau amddiffyn cnydau yn unol ag argymhellion labeli, y dylid cyfeirio atynt cyn chwistrellu. Cyfrifoldeb y defnyddiwr yw'r defnydd o'r plaladdwr, ac nid yw Cyswllt Ffermio yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan ddefnydd o'r fath. Mae'r cyfeiriadau'n agored i newid a gellir tynnu cymeradwyaeth yn ôl ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio cymeradwyaethau cyn defnyddio plaladdwyr. Os oes unrhyw amheuaeth, dylai tyfwr ofyn am gyngor gan arbenigwr cymwys - mae hyn ar gael i dyfwyr cymwys trwy'r rhaglen Cyswllt Ffermio, cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad - mae cyngor ar gael dros e-bost/dros y ffôn ar gael hefyd.